**Canllawiau i Arbenigwyr Pwnc Allanol ar Baneli Cymeradwyo**

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r brifysgol wedi ei rhannu'n Golegau sy'n cynrychioli'r prif raniadau pynciau. Mae rhai colegau wedi eu rhannu ymhellach yn ysgolion academaidd sy'n cynrychioli meysydd pwnc penodol.

Cyflwynir mwyafrif y cyrsiau mewn ysgolion ond mae pwyslais cynyddol ar ddarpariaeth ar draws ysgolion, yn enwedig mewn cyrsiau amlddisgyblaethol. Mae addysgu a dysgu yn y brifysgol dan oruchwyliaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Mae sicrhau ansawdd a dilysu'n gyfrifoldeb i'r Grŵp Cyflawni Cwricwlwm sy'n adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

## 2. Trefniadau Sicrhau Ansawdd a Dilysu

Disgrifir yn fanwl yng Nghod Ymarfer 08 drefniadau cymeradwyo rhaglenni a modiwlau a threfniadau monitro sicrhau ansawdd arferol. I grynhoi, mae'r holl raglenni a modiwlau wedi eu cymeradwyo gan drefniadau a gydlynir yn ganolog dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Caiff pob rhaglen ei monitro'n flynyddol (trwy ffurflenni QA1), felly hefyd pob modiwl (trwy ffurflenni QA2). Ysgolion eu hunain sy'n craffu ar ffurflenni QA2 ond caiff yr holl ffurflenni QA1 eu monitro'n ganolog, a lle bo angen, adroddir am faterion sy'n peri pryder i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Rhaid rhoi sylw i sylwadau arholwyr allanol, a benodir ar gyfer pob rhaglen (neu grŵp o raglenni) trwy gyfrwng y ffurflenni QA1.

Rhaid ail-ddilysu pob Rhaglen yn achlysurol a rhaid cynnal archwiliad ansawdd mewnol rheolaidd ym mhob ysgol.

## 3. Cymeradwyo ac Ail-ddilysu Rhaglenni

Mae arbenigwyr pwnc allanol yn rhan annatod o'r broses gymeradwyo ac ail-ddilysu. Fel aelod o'r panel cymeradwyo, bydd arbenigwr pwnc allanol yn derbyn manyleb rhaglen lawn a modiwlau aliniedig. Disgwylir i'r arbenigwr pwnc allanol wneud y canlynol:

- Rhoi sylwadau cyffredinol ar y modiwlau sy'n rhan o'r rhaglen.
- Cyfrannu at gasgliadau'r panel ynglŷn â chymeradwyo'r rhaglen (neu beidio).
- Ysgrifennu adroddiad ar y cwrs (gan ddefnyddio'r proforma a ddarperir) a chynnwys unrhyw faterion eraill y mae angen i'r brifysgol roi sylw iddynt.

## 4. Y Digwyddiad Dilysu

Disgrifir cyfansoddiad y panel cymeradwyo yn y cod ymarfer. Bydd pob digwyddiad yn dilyn y drefn ganlynol fel rheol:

a) Rhagarweiniad

b) Crynodeb gan yr ysgol sy'n cyflwyno

c) Sylwadau cryno gan yr arbenigwr pwnc allanol

d) Sylwadau cryno gan aelodau'r panel

e) Adolygiad manwl o ddogfennau a modiwlau'r rhaglen

f) Casgliadau